

Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal lechyd – Strategaeth ar gyfer Ysbytai yng Nghymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhagair

Bydd heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd bob amser yn fater o bwys i rai cleifion, gan ei bod weithiau'n anorfod y caiff rhai eu heintio yn sgîl salwch. Er hynny, mae tystiolaeth dda bod modd atal cyfran o'r achosion hyn trwy dalu sylw gofalus i'r gweithdrefnau rheoli heintiau. Mae'n ddyletswydd ar holl staff gofal iechyd i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol wrth atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Is- grŵp Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAISG), fel rhan o Bwyllgor Rheoli Clefydau Trosoglwyddadwy ddatblygodd y strategaeth hon, ac rydyn ni'n ddiolchgar iddynt am roi o'u hamser a'u harbenigedd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y cyfrifoldeb personol a amlinellwyd uchod ac yn cynnig bod yr ymddiriedolaethau yn datblygu seilwaith rheoli heintiau i bwysleisio'r cyfrifoldebau hyn fesul cyfarwyddiaethau. Rydyn ni'n disgwyl i'r ymddiriedolaethau ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol i roi'r strategaeth hon ar waith, gan ddisgwyl cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt a helynt y gwaith. Mae Rhan dau y ddogfen hon yn cynnwys crynodeb manylach o'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolaethau. Bydd Cylchlythyr Gofal Iechyd sy'n pwysleisio'r camau gweithredu hyn hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth.

Mae'r strategaeth hon yn parhau i ddilyn y cysyniad o weithio mewn partneriaeth. Bydd cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu cyhoeddi gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol yn y meysydd hynny fel sy'n briodol.

Prif nod y strategaeth yw lleihau'r heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbytai aciwt. Er hynny, mae hwn yn fater perthnasol i'r sector gofal iechyd i gyd, a'r cam nesaf fydd datblygu strategaeth i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y gymuned. Bydd angen gweithio ar faterion rheoli heintiau ehangach wedyn. Bydd y dogfennau cyflawn yn cynnwys:

- Strategaeth i reoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbytai;
- Strategaeth i reoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y gymuned;
- Canllawiau craidd ar reoli heintiau;
- Strategaeth a rheoli argyfyngau clefydau heintus.

Bydd angen i brif weithredwyr yr Ymddiriedolaethau gydweithio'n agosach â'r byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol, wrth i'r strategaethau ddatblygu i sicrhau bod heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a heintiau eraill, yn cael eu rheoli'n ddi-dor.

Fel mae'r strategaeth hon yn ei nodi'n glir, byddwn yn defnyddio safonau cenedlaethol i fesur perfformiad yn y maes hwn, a byddwn yn gweithio gyda Chronfa Risg Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol yn y maes hwn. Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol yn nwylo'r prif weithredwyr a'u byrddau, a byddwn yn dibynnu arnynt i gyflwyno'r strategaeth hon i Gymru.



Cyflwyniad

Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn parhau i achosi llawer o farwolaethau ymysg cleifion ynghyd â chost sylweddol i'r gwasanaeth iechyd. Nod y strategaeth hon yw helpu i leihau'r heintiau hyn yng Nghymru. Y prif ganolbwynt fydd datblygu seilwaith rheoli heintiau sy'n pwysleisio cyfrifoldebau'r holl weithwyr gofal iechyd. Mae'r newidiadau arfaethedig yn defnyddio dulliau llywodraethu clinigol a rheoli risg sy'n disgwyl i dimau clinigol fynd i'r afael â'u problemau eu hunain, wedi'u llywio a'u cefnogi gan ymarferwyr arbenigol rheoli heintiau.

Cyflwynwyd hyn yn *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid* a dogfen y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *The Management and Control of Hospital Acquired Infection in Acute NHS Trusts in England*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000. Mae'r strategaeth hon yn argymhell pecyn o ddulliau i helpu timau clinigol i nodi'r problemau a'r camau gweithredu i adfer y sefyllfa. Mae'n ystyried y gofynion am gymorth arbenigol, yn pwysleisio'r angen am weithleoedd diogel, yn cadarnhau adolygiad o'r hyfforddiant arbenigol ac anarbenigol mewn arferion rheoli heintiau, ac yn pwysleisio gwerth y systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu sy'n sail i'r prosesau hyn.

Strwythur y ddogfen:

Dogfen ar gyfer yr holl staff iechyd yw hon. Mae Rhan 1 yn cyflwyno'r amcanion strategol ac yn amlinellu strwythur y strategaeth. Mae Rhan 2 yn crynhoi'r prif bwyntiau gweithredu. Mae Rhan 3 wedi'i rhannu'n 7 pennod ac yn rhoi gwybodaeth ategol ynglŷn â'r strategaeth a'r camau gweithredu. Bydd y ddogfen i'w gweld ar wefan HOWIS (Y Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd), trwy gyfrwng gwefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (<http://www.nphs.wales.nhs.uk>).

Cynnwys

Rhan un

Amcanion y Strategaeth	3
Sut bydd yr amcanion strategol hyn yn cael eu cyflawni	3
Strwythur y Strategaeth	4

Rhan dau

Tablau'r fframwaith	5
---------------------	---

Rhan tri

Pennod un	Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbytai: gorolwg	21
Pennod dau	Y Safonau Cenedlaethol	23
Pennod tri	Seilwaith a sefydliad	24
Pennod pedwar	Addysg a hyfforddiant	28
Pennod pump	Archwilio a chadw gwyliadwriaeth	29
Pennod chwech	Ymyriadau a dangosyddion perfformiad	32
Pennod saith	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	34

Rhan pedwar

Llyfryddiaeth	36
---------------	----

Rhan pump

Atodiadau	37
Atodiad A	37
Atodiad B	38
Atodiad C	39
Atodiad Ch	40
Atodiad D	41
Atodiad Dd	42

Rhan un

Amcanion y strategaeth

- Bydd yr holl staff yn deall goblygiadau heintiau ac arferion rheoli heintiau fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau personol i'w cleifion, staff eraill, ymwelwyr, a nhw eu hunain.
- Bydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau'r risg o ddal heintiau.
- Mae'n rhaid i raglenni Rheoli Heintiau gael digon o gymorth gan staff arbenigol rheoli heintiau sydd â digon o sgiliau ac adnoddau i ddiwallu anghenion cynllun rheoli heintiau Ymddiriedolaeth y GIG.
- Bydd Ymddiriedolaethau'n mabwysiadu rhaglenni archwilio a gwyliadwriaeth cynhwysfawr i fonitro a llywio eu rhaglenni rheoli heintiau. Bydd rhaglenni'n cael eu seilio ar yr anghenion lleol fel a nodwyd yng nghynllun a rhaglen rheoli heintiau'r Ymddiriedolaeth, ac yn mabwysiadu rhaglenni cenedlaethol sy'n cael eu datblygu a'u pennu gan Fwrdd Rheoli GIG Cymru.
- Bydd y nod o leihau cyfraddau heintiau yn rhan o raglenni a strategaethau'r Ymddiriedolaeth. Bydd hyn hefyd yn rhan o gynlluniau rheoli cyffredinol yr Ymddiriedolaeth ac yn gysylltiedig â'r meysydd rheoli llywodraethol, rheoli risg, rheoli perfformiad a'r Cerdyn Sgorio Cytbwys.
- Bydd Ymddiriedolaethau'n datblygu systemau i sicrhau bod data'n cael ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i rannu'n effeithiol, a bod modd cael 'hyd i'r' data a'r ffynonellau gwybodaeth sy'n briodol i'w hanghenion o ran rheoli heintiau yn eu Hymddiriedolaeth nhw.

Sut bydd yr amcanion strategol hyn yn cael eu cyflawni

- Bydd y Safonau Cenedlaethol diweddaraf, ar sail tystiolaeth, yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bod arferion rheoli heintiau cyson ar waith ledled Cymru.
- Mae'n rhaid cynnwys y maes rheoli heintiau fel prif eitem agenda rheoli ac atebolrwydd yr holl staff a rheolwyr (fel sy'n briodol i'w gwaith).
- Bydd cymorth epidemiolegol arbenigol ar gael i dimau rheoli heintiau yr Ymddiriedolaeth fel bo'r angen, i ategu eu rhaglenni rheoli heintiau.
- Bydd cynlluniau hyfforddiant effeithiol ar gael i ddiwallu anghenion y staff i gyd. Bydd cynlluniau'n cynnwys israddedigion, staff cyn-gofrestru, hyfforddiant mewn swydd (yn y GIG a thu hwnt), ôl-gofrestru (cyffredinol ac arbenigol) a'r maes datblygiad proffesiynol parhaus.

Strwythur y strategaeth

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar ddogfen *Gwella Iechyd yng Nghymru* gyda'r nod o helpu i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar

- Safonau – **Pennod dau;**
- Seilwaith a sefydliad – **Pennod tri;**
- Addysg a hyfforddiant – **Pennod pedwar;**
- Archwilio a chadw gwyliadwriaeth – **Pennod pump;**
- Ymyriadau a datblygu dangosyddion perfformiad – **Pennod chwech;**
- Cyfathrebu – **Pennod saith.**

Rhan dau Tablau'r fframwaith

Fframwaith cyflawni	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Safonau Cenedlaethol: (<i>gweler y testun ym mhennod 2</i>)		
Nod strategol - Bydd y Safonau Cenedlaethol diweddaraf, ar sail tystiolaeth, yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bod arferion rheoli heintiau cyson ac effeithiol ar waith ledled Cymru.		
Mae'r strategaeth yn cydnabod bod safonau'n newid ac yn datblygu. Felly, y safonau ar waith fydd y rhai sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan HOWIS, ar wefan "Infection and Communicable Disease Service" Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Cyngori ar Safonau Gofal Iechyd (HSCB) drwy'r Datganiad Safonau. Current standards in operation in Wales:	2(i) Bydd Ymddiriedolaethau'n cydymffurfio â'r safonau rheoli heintiau presennol. - Wrth wneud hyn, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried: - Swyddogaeth y cyfarwyddiaethau clinigol o fewn y fframwaith atebolrwydd; - Cyfuno'r rhaglenni gwyliadwriaeth cenedlaethol yn ffurfiol; - Cyfuno mesurau canlyniadau o fewn y dangosyddion perfformiad; - Y posibilrwydd o ehangu'r prosesau archwilio allanol i ategu'r trefniadau archwilio mewnol.	Cyfrifoldeb - Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Rheoli Heintiau - Swyddfa Ranbarthol y GIG Monitro - Aesu Cronfa Risg Cymru bob blwyddyn - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (drwy'r broses arolygu) - Tîm Prosiect Is-grŵp Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAISG) - Parhaol – swyddogaeth Swyddfa Ranbarthol GIG fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y sefydliad (SAFF, Cerdyn Sgorio Cytbwys, cynlluniau gweithredu CHI/HIW.
Dyma'r safonau sydd eisoes ar waith yng Nghymru: Safonau Cronfa Risg Cymru: (Standard 14 is the principal guide to infection control but many other standards have links to infection control responsibilities)		
Safon 14: Rheoli Heintiau: http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/28714%20Infection%20Control.doc		
Safon 23: Arlwygo a Maethiad: http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/287123NUTRITIONANDCATERINGversion2amendmarch'03.doc		

Safon 30: Offer a Chyfarpar Meddygol: http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/287/30MedicalEquipmentandDevices-v1AmendMarch'03.doc Safon 35: Rheoli Gwastraff: http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/287/35%20Waste%20Management.doc Safon 36: Diheintio: http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/287/36%20%20DECONTAMINATION%20version%201%20April%202001.doc	2(ii) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i addasu safonau Cronfa Risg Cymru ar reoli heintiau i gynnwys elfennau diweddaraf y strategaeth rheoli heintiau ac i ddatblygu tystiolaeth.	Amserlen - Blynyddol – trwy Gronfa Risg Cymru a'r Cerdyn Sgorio Cytbwys. - Ad hoc – Arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cyfrifoldeb - Bydd WHAISG yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Cyngchori ar Safonau Gofal Iechyd (HSCB). Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fydd yn addasu'r safonau. Amserlen - Parhaus.
Safonau Glanweithdra' Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru: http://howis.wales.nhs.uk/whe/library/National%20Cleaning%20Stnds%20(E).pdf Safonau Glanweithdra Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru – Asesu perfformiad (Offer): http://howis.wales.nhs.uk/whe/library/Nat.%20Cleaning%20Stnds%20(Toolkit)%20(E).pdf	2(iii) Archwilio'r cyfleoedd i adeiladu ar Safonau Glanweithdr Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu argymhellion ychwanegol sy'n hwb i'r gwaith oreoli heintiau.	Cyfrifoldeb Prif Swyddogion yr Ymddiriedolaethau Monitro - Safonau Glanweithdra Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru – Asesu perfformiad (Offer) - Swyddfeydd Rhanbarthol GIG - Archwiliadau blynyddol y Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Cerdyn Sgorio Cytbwys. Amserlen Mai 2005

Fframwaith cyflawni Seilwaith a Sefydliad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
(gweler y testun ym mhennod 3)		
Amcanion strategol: • Bydd yr holl staff yn deall goblygiadau heintiau a'r arferion rheoli heintiau fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau personol i'w cleifion, staff eraill, ymwelwyr a nhw eu hunain. • Mae'n rhaid cynnwys y maes rheoli heintiau fel prif eitem agenda ac atebolrwydd yr holl staff a'r rheolwyr (fel sy'n briodol i'w gwaith).		Cyfrifoldeb Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth ar y cyd â Swyddfeydd Rhanbarthol GIG a chyfarwyddiaethau Ymddiriedolaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar reoli heintiau. Amserlen Prif Weithredwr Ymddiriedolaethau i gyflwyno cynllun gweithredu i Swyddfeydd Rhanbarthol y GIG erbyn mis Rhagfyr 2004.
Atebolrwydd Rheolwyr Sefydlu llinellau atebolrwydd clir i'r holl staff o ran cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau. Dylai pob cyfarwyddiaeth drefnu'n ffurfiol bod un o uwch weithwyr y tîm rheoli yn atebol am arferion rheoli heintiau yn eu cyfarwyddiaeth.	3(i) Dylai ymddiriedolaethau adolygu'r trefniadau rheoli i sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir wedi'u sefydlu. 3(ii) Dylai timau rheoli cyfarwyddiaeth pob Ymddiriedolaeth benodi rhywun i fod yn atebol am arferion rheoli heintiau. Dylai ymddiriedolaethau gydnabod gofynion pob cyfarwyddiaeth (cli igol ac anghlinigol) o ran rheoli heintiau.	

Bydd pob cyfarwyddiaeth yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eu maes drwy broses asesu risg y sefydliad. Cynlluniau cyfarwyddiaeth lleol i lywio rhaglen rheoli heintiau Ymddiriedolaeth-gyfan a Chofrestri Risg yr Ymddiriedolaeth / Cyfarwyddiaeth.

Defnyddio dull 'Cerdyn Sgorio Cytbwys' i reoli heintiau sy'n cwmpasu delfryd, safonau, meincnodau, cadw gwyliadwriaeth a chynlluniau gweithredu strategol i'w datblygu ledled y GIG yng Nghymru. Bydd NHSD, Ymddiriedolaethau, cyfarwyddiaethau ac unigolion yn gweithio mewn partneriaeth i wneud hyn.

3(iii) Dylai pob cyfarwyddiaeth weithio gydag arbenigwyr Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaeth i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eu maes gwaith a chyfraniad y gyfarwyddiaeth at raglen rheoli heintiau'r Ymddiriedolaeth-gyfan. Datblygu arbenigedd Cyfarwyddiaeth mewn rheoli heintiau.

Cyfrifoldeb

Cyfarwyddwr Clinigol ac Arbenigwr Rheoli Heintiau

Monitro

Y Prif Weithredwr er mwyn cynnwys hyn mewn cynllun gweithredu a Chynlluniau Datblygu 3 blynedd Llywodraethu Clinigol a Cherdyn Sgorio Cytbwys.

Fframwaith cyflawni	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Cymorth arbenigol i reoli heintiau		
Nod strategol: Mae'n rhaid i raglenni rheoli heintiau gael digon o gymorth gan staff arbenigol rheoli heintiau sydd â digon o sgiliau ac adnoddau i ddiwallu anghenion cynllun rheoli heintiau yr Ymddiriedolaeth GIG. Bydd y trefniadau rheoli sy'n cael eu hamlinellu yn "Hospital Infection Control – guidance on the control of infection in hospitals"¹ yn parhau i gyflwyno'r prif drefniadau ar gyfer rheoli heintiau (pennod 2). Er hynny, bydd yr arweiniad a'r argymhellion ar reoli heintiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan WHAISG i adlewyrchu'r arferion gofal iechyd ar hyn o bryd.	3(iv) Bydd adolygiad y Pwyllgor Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i reoli clefydau trosglwyddadwy yng Nghymru yn nodi arferion da ac yn cyflwyno'r argymhellion diweddaraf ar faterion staffio ac adnoddau. 3(v) Staff y cyfarwyddiaethau i ddod yn aelodau craidd o bwyllgor rheoli heintiau'r Ymddiriedolaeth.	Cyfrifoldeb - Llywodraeth Cynulliad Cymru Cyfrifoldeb - Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth: i'w gynnwys yn y cynllun gweithredu. Monitro - WHAISG i adolygu cynllun gweithredu'r Ymddiriedolaeth. - Cysylltu'r Cynllun Gweithredu â Chynlluniau Datblygu Llywodraethu Clinigol ar gyfer adolygiad blynyddol. Amserlen Medi 2005

1 Grŵp Gweithio ar Heintiau Ysbytai. Hospital Infection Control – guidance on the control of infection in hospitals. Llundain: Adran Iechyd a Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd.1995.

Fframwaith cyflawni Cymorth epidemiolegol arbenigol	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Nod strategol: Bydd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS) yn rhoi digon o gymorth a chynghor arbenigol i'r strategaeth.	3(vi) Bydd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn sicrhau bod arbenigwyr epidemiolegol ar gael yn y Ganolfan Cadw Gwyliaidwriaeth ar Glefydau Trosglwyddadwy i helpu gwasanaethau lleol.	Cyfrifoldeb - NPHS (Cymru) Monitro - Gwasanaeth Heintiau a Chlefydau Trosglwyddadwy a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amserlen - Parhaus
Cyfleusterau Nod strategol: Bydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau perygl o ddal heintiau. Mae Cronfa Risg Cymru a'r Safonau Glanweithdra Cenedlaethol, ynghyd â gwaith Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, yn creu fframwaith cynhwysfawr i reoli heintiau a rheoli hylendid.	3(vii) Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthuso canlyniadau arolwg o'r cyfleusterau ynysu yng Nghymru, yn rhoi arweiniad o'r llety sydd ei angen ac yn ystyried yr angen am fuddsoddiad cyfalaf yn sgîl cynllunio pellach.	Cyfrifoldeb - Llywodraeth Cynulliad Cymru Amserlen - Rhagfyr 2005.

3(viii) Bydd angen i Ymddiriedolaethau ddarparu rhagor o gyfleusterau ynysu priodol i ddiwallu eu hanghenion.

Cyfrifoldeb

- Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth

Monitro

- Fel y Cynllun Gweithredu

Amserlen

- Bob blwyddyn gydol y Cynllun Gweithredu

Fframwaith cyflawni Addysg a hyfforddiant	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Nod Strategol: Bydd cynlluniau hyfforddiant effeithiol ar gael i ddiwallu anghenion yr holl staff. Bydd cynlluniau'n cynnwys israddedigion, staff cyn-gofrestru, hyfforddiant mewn swydd (yn y GIG a thu hwnt), ôl-gofrestru (cyffredinol ac arbenigol) a'r maes datblygiad proffesiynol parhaus.	4(i) Mae Canolfan Iechyd Cymru wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd mewn rheoli heintiau, ar ran WHAISG. Roedd yr adolygiad yn: - Nodi'r darparwyr (e.e. academia, Colegau Brenhinol, hyfforddiant mewn swydd) - Nodi'r 'bylchau' o ran y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mewn rheoli heintiau - Ystyried addysg a hyfforddiant yn ôl y bfeiau canlynol: - Cyn-gofrestru ac israddedigion; - Hyfforddiant mewn swydd (GIG a thu hwnt); - ôl-gofrestru ac ôl-raddedig (cyffredinol); - ôl-gofrestru ac ôl-raddedig (arbenigol); - Datblygiad Proffesiynol Parhaus.	Daeth yr adolygiad i ben ar 31 Mawrth 2004 a bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon i WHAISG ar gyfer gwaith pellach. Cyfrifoldeb - Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anfon rhagor o wybodaeth fanylach i'r Ymddiriedolaethau, i nodi cyflwyno'r rhaglenni hyfforddiant. Amserlen - Erbyn 2006.

	4(ii) Bydd rhaglen hyfforddiant newydd yn cael ei datblygu, sy'n • Adeiladu ar y seilwaith addysg a hyfforddiant sydd ar gael nawr; • Ceisio mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd yn yr adolygiad; • Cyflwyno hyfforddiant amlddisgyblaethol ar reoli heinti au i arbenigwyr a'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr.	Cyfrifoldeb WHAISG Amserlen Cyflwyno rhaglen hyfforddiant yn 2006 ar sail y datblygiadau uchod.
--	---	---

Fframwaith cyflawni Cadw gwyliadwriaeth	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Nod strategol: Bydd Ymddiriedolaethau'n mabwysiadu rhaglenni goruchwylio a chadw gwyliadwriaeth i fonitro a llywio eu rhaglenni rheoli heintiau. Bydd rhaglenni'n cael eu seilio ar yr anghenion lleol fel a nodwyd yng nghynllun a rhaglen rheoli heintiau'r Ymddiriedolaethau, ac yn mabwysiadu rhaglenni cenedlaethol sy'n cael eu datblygu a'u pennu gan Fwrdd Rheoli GIG Cymru	5(i) Bydd Ymddiriedolaethau yn cynnal rhaglenni cadw gwyliadwriaeth cenedlaethol wrth iddynt gael eu datblygu a'u haddasu. Bydd y rhaglen hon yn datblygu ac yn cyflwyno portffolio cynhwysfawr o offer cadw gwyliadwriaeth i'r Ymddiriedolaethau fel bod modd cymharu â sefydliadau gofal iechyd eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys: • Surgical site infection surveillance extended to other specialities; • Infections in ITU: pilot in 2004;	Cyfrifoldeb • Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth ac Ymgynghorydd mewn Rheoli Heintiau Monitro • Tîm prosiect WHA/ISG • Gweithdrefnau adrodd am achosion o fewn yr Ymddiriedolaeth a threfn adrodd Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

2 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Healthcare associated infection surveillance.WHC 2003(43) Ebrill 2003, ar gael ar wefan <http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/368/whcortho.doc> ar ôl 15 Medi 2003.

- Bacteraemias eraill a gadarnhawyd gan y labordai. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar bacteriaemias yn sgîl enterococci ymwrthedd i gly copeptide

- Heintiau a gadarnhawyd gan labordai yn sgîl Clostridium difficile. I'w gyflwyno fel rhaglen barhaus, orfodol, yn 2004).

Amserlen

Fel a nodwyd, ond hefyd yn ôl cyngor pellach Cylchlythyr lechyd Cymru, yn dilyn argymhelliad WHAISG a sêl bendith Tîm Rheoli NHSD.

Fframwaith cyflawni Archwilio	Camau gweithredu 5(ii) Yr Ymddiriedolaethau i sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnwys fel rhan o raglen archwilio clinigol ymddiriedolaeth-gyfan. (Bydd yr offer archwilio cenedlaethol yn cael eu mabwysiadu gyda chytundeb Bwrdd Rheoli'r GIG/Cymdeithas Genedlaethol y Prif Weithredwyr). 5(iii) Bydd dull archwilio'r DU – a gomisiynwyd gan Adran Iechyd San Steffan ac sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Gymdeithas y Nyrsys sy'n Rheoli Heintiau a'r rhan ddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn cael ei roi ar brawf o fewn Ymddiriedolaethau penodol, gyda'r nod o'i fabwysiadu ledled y wlad. Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau fynegi diddordeb mewn rhoi'r dull archwilio ar brawf erbyn 30 Tachwedd 2004.	Cyfrifoldeb Cyfrifoldeb • Tîm prosiect WHAISG. Monitro • Rhaglen flaenoriaethau'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Amserlen • Mawrth 2005 Cyfrifoldeb • Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau i fynegi diddordeb yng nghynllun peilot yr offer archwilio. Monitro • WHAISG Amserlen • Erbyn 30 Tachwedd 2004 • Cwblhau'r adroddiad archwilio erbyn Chwefror 2005.
--	---	--

Fframwaith cyflawni Ymyriadau a dangosyddion perfformiad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Nod Strategol: Bydd y nod o leihau cyfraddau heintiau yn rhan o raglenni a strategaethau'r Ymddiriedolaeth. Bydd hyn hefyd yn rhan o gynlluniau rheoli cyffredinol yr Ymddiriedolaeth ac yn gysylltiedig â'r meysydd rheoli llywodraethol, rheoli risg, rheoli perfformiad a'r 'Cerdyn Sgorio Cytbwys'.	6(i) Yn unol â WHC 2003 (43), sicrhau bod pob Ymddiriedolaeth yn cofrestru'n flynyddol gyda thîm prosiect WHAISG a'r targedau blaenoriaethau lleol i leihau heintiau mesuradwy.	Cyfrifoldeb - Swyddogion Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau. Monitro - Swyddfeydd Rhanbarthol GIG drwy'r Cerdyn Sgorio Cytbwys. - Tîm prosiect WHAISG. Adroddiad/arolwg blynyddol. Amserlen - Bob blwyddyn.
(gweler y testun ym mhennod 6) Mae WHC 2003(43)² yn mynnu bod pob Ymddiriedolaeth yn cofrestru'n flynyddol gyda Thîm Prosiect Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a'r targedau blaenoriaethau lleol i leihau heintiau mesuradwy.		

2 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Healthcare associated infection surveillance.WHC 2003(43) Ebrill 2003, ar gael ar wefan <http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/documents/368/whcortho.doc> ar ôl 15 Medi 2003.

6(ii) WHAISG i gynnig cyngor ar arferion gorau bob blwyddyn (neu fel bo'r angen)

Monitro

- WHAISG

Timescale

- Bob blwyddyn.

Fframwaith cyflawni Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
Nod Strategol: Bydd yr Ymddiriedolaethau yn datblygu systemau i sicrhau bod data'n effeithiol a bod mynediad i ffynonellau gwybodaeth yn briodol i'w hanghenion o ran rheoli heintiau yn eu Hymddiriedolaeth.		
<i>(gweler y testun ym mhennod 7)</i> Mae'n hanfodol cael cymorth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IMT) er mwyn gweithio'n effeithlon i reoli heintiau.	7(i) Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ymddiriedolaethau GIG yn ystyried anghenion rheoli heintiau wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni IMT yn y dyfodol. 7(ii) Bydd yr Ymddiriedolaethau yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i roi offer a meddalwedd TG arbenigol i'r adrannau TGCh. 7(iii) Bydd gwefan Hentiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd yng Nghymru yn cael ei datblygu fel prif gyfrwng cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y manylion diweddaraf am ddatblygiadau strategol.	Cyfrifoldeb - Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau a Phwyllgorau Rheoli Heintiau Ymddiriedolaethau. Monitro - Tîm prosiect WHAISG. Amserlen - Parhaus.

	7(iv) Bydd tîm prosiect WHAISG yn datblygu DataStore ymhellach i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd adroddiadau'r labordai i ddibenion cadw gwyliadwriaeth. 7(v) Bydd adolygiad WHAISG o'r maes hyfforddiant yn cynnwys gofynion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.	Cyfrifoldeb • NPHS – Cymru (Tîm prosiect WHAISG) Monitro • Tîm prosiect WHAISG Project team Amserlen Mehefin 2004 Cyfrifoldeb NPHS (Cymru)
--	--	--

Pennod Un Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbytai: gorolwg

Cefndir

1.1 Mae'r gwaith o drin cleifion a gofalu amdanynt yn yr ysbyty yn aml yn cael ei gymhlethu wrth i heintiau ddatblygu, yn sgîl ffactorau amrywiol sy'n achosi i bobl fod yn agored i elfennau microbaidd. Mae'r rhain yn cynnwys: system imiwneiddio'r corff yn llai effeithiol yn sgîl sawl salwch; y ffaith bod plant ifanc iawn a'r henoed yn fwy tebygol o ddal heintiau; ymyriadau meddygol sy'n gwanhau'r mecanweithiau amddiffyn arferol; a'r posibilrwydd o ledu'r organebau pathogenaid o glaf i glaf pan fyddant yn agos i'w gilydd. Mae'n dipyn o her atal a rheoli heintiau, ac roedd llwyddiant yn y maes hwn yn hanfodol wrth ddatblygu gweithdrefnau meddygol cymhleth. Llwyddwyd i leihau heintiau yn ystod y can mlynedd ddiwethaf trwy ddulliau niferus wrth i bobl ddeall clefyd microbaidd fwyfwy. Mae'r rhain yn cynnwys arferion hylendid, dulliau effeithiol o sterileiddio, asepsis a gwrth-heintio, a rheoli'r amgylchedd; darganfod a defnyddio gwrthfotigau; datblygu dulliau labordy a chymhwyso gwyddoniaeth epidemiolegol. Mae addysg a hyfforddiant wedi hwyluso a chefnogi'r gwaith o gyfuno hyn yn y maes clinigol, yn ogystal â lluo o brosesau rheoli i sicrhau arferion da, a datblygu cnewyllyn o arbenigwyr rheoli heintiau. Er gwaethaf hyn, mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn gyffredin o hyd. Mae arolygon cenedlaethol yn awgrymu fod naw y cant o gleifion mewnol yn dioddef haint sy'n gysylltiedig ag ysbyty ar unrhyw un adeg.

1.2 Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HAI) yn cael effaith arbennig o andwyol oherwydd:

- eu hamlder a'u graddfa – nid yn unig y mae haint yn effeithio ar unigolyn, ond fe allai gael ei drosglwyddo i eraill gan greu problem iechyd sylweddol i'r cyhoedd;
- eu heffaith ar gyflenwi gwasanaethau – mae HAI yn llesteirio adferiad buan, yn cynyddu'r amser y mae'r claf yn gorfod aros yn yr ysbyty, ac yn aml yn gallu arwain at gau gwasanaethau dros dro neu'r angen am adnoddau ychwanegol i gynnal gwasanaethau;
- eu heffaith ar ddisgwyliadau'r cyhoedd – yn hanesyddol, mae cyflwr iechyd pobl wedi gwella yn ôl mesurau i atal heintiau;
- eu delwedd negyddol – rhan o'r broblem yw bod heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn adlewyrchu hylendid gwael ac amgylcheddau anaddas.³

3 Gweithrediaeth yr Alban (Guidance on core standards for the control of infection in hospitals, healthcare premises and the community interface) Gorffennaf 1998. Ar gael o'r wefan: www.scotland.gov.uk/library5/health/preventinfect.pdf

Effaith heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a dulliau posib o'u rheoli

1.3 Mae effeithiau HAI yn amrywio o anesmwythder i anabledd estynedig neu barhaol. Efallai bydd cyfran fechan o gleifion yn marw. Mae'n anodd mesur costau heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai, gan gynnwys arhosiad estynedig. Mae hefyd yn ansicr faint o'r heintiau hyn y gellir eu hatal yng nghyd-destun y dechnoleg ac arferion meddygol heddiw. Ym 1995, fodd bynnag, awgrymodd Gweithgor Heintiau Ysbytai'r Adran Iechyd a'r Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus y gellid fod wedi osgoi 30 y cant o heintiau mewn ysbytai trwy rannu gwybodaeth ac arferion realistig i reoli heintiau yn well (Yr Adran Iechyd, 1995). Cyfeiriodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000 (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2000) at farn y proffesiwn sef y dylid anelu at gael o leiaf 15 y cant yn llai o achosion. Pwysleisiwyd y cynnydd parhaol yn y maes hwn yn strategaeth GIG Cymru, *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001). Cafodd hylendid ei nodi'n flaenoriaeth uchel i ysbytai, a dylid lleihau'r heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai fel bo'r cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel.

1.4 Mae rheolaeth ysbyty a chlinigol yn allweddol i gyfyngu ar yr heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai, ac yn cynnwys:

- Nodi'r ffactorau risg a lleihau eu heffaith;
- Gwella gallu'r cleifion i wrthsefyll heintiau;
- Nodi achosion o'r heintiau yn gynnar, a'u trin yn effeithiol;
- Atal micro-organebau rhag lledu o glaf i glaf;
- Cadw amgylchedd glân gyda lefelau isel o heintiad microbiolegol.

Mae'r prosesau hyn wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwaith clinigol arferol. Mae data o'r cynllun cadw gwyliadwriaeth ar facteriwm *Staphylococcus aureus* yn dangos bod rhywfaint o gydbwysedd wedi'i sicrhau. Felly, bydd angen cynlluniau sy'n creu newidiadau sylweddol i sicrhau cynnydd.

Rhai gwersi yn sgîl Syndrom Anadlu Acíwt Difrifol (SARS)

1.5 Daeth rhai egwyddorion pwysig o ran atal micro-organebau rhag trosglwyddo mewn ysbytai i'r amlwg yn sgîl clwyf SARS. Roedd y coronafeirws oedd yn gyfrifol am y cyflwr yn lledu'n sydyn o glaf i glaf neu o glaf i staff. Gyda llawer wedi marw ar ôl cael eu heintio, roedd angen ailasesu'r gweithdrefnau rheoli heintiau ar frys yn yr ysbytai a gafodd eu heffeithio (MMWR, 2003). Mae'n bosib bod gan rai o'r heintiau sy'n cael eu cysylltu'n fwy gyffredinol â thraws-heintio yn ysbytai'r DU, fel Norovirus, y gallu tebyg i drosglwyddo o un person i'r llall. Felly, roedd achosion o'r clwyf SARS nid yn unig yn atgof amserol y dylid rhoi polisïau cadarn, ar sail tystiolaeth, ar waith; ond hefyd bod rhaid eu cymhwyso'n drylwyr ac yn gyson. Mae angen i staff y system gofal iechyd ddeall arferion atal a rheoli heintiau yn effeithiol, ac ymrwymo i hynny. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r systemau a gynlluniwyd i gyflawni'r nod hwn.

Pennod dau Y Safonau Cenedlaethol

- 2.1 Mae strategaeth GIG Cymru, *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid*, yn pwysleisio'r angen i sicrhau gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau iechyd, trwy bennu, monitro ac adolygu'r safonau gofal cenedlaethol. Mae'r safonau allweddol yn ymwneud â rheoli heintiau wedi'u diffinio gan Gronfa Risg Cymru. Eu nod yw gofalu bod amgylchedd dan reolaeth sy'n lleihau'r perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr gael eu heintio, ac sy'n mynd i'r afael ag
- Atebolrwydd rheolwyr;
 - Yr adnoddau sydd ar gael i helpu gyda'r gwaith o reoli heintiau;
 - Y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiau ledled y sefydliadau;
 - Adolygu ac addasu'r trefniadau rheoli heintiau;
 - Hyfforddiant i reoli heintiau;
 - Archwilio a chadw gwylidwriaeth;
 - Cyfathrebu;
 - Dangosyddion perfformiad.
- 2.2 Mae Safonau Glanweithdra Cenedlaethol Ymddiriedolaethau'r GIG yn cynnig diffiniad strwythuredig o'r gofynion hylendid amgylcheddol.
- 2.3 Mae Cronfa Risg Cymru a'r Safonau Glanweithdra Cenedlaethol yn creu fframwaith cynhwysfawr i reoli heintiau a rheoli hylendid. Mae'n bwysig bod proses ddeinamig o goethi ac adolygu sy'n ystyried newidiadau a datblygiadau yn y dystiolaeth, yn cyd-fynd â hyn.
- 2.4 Yn ogystal â hynny, mae'r strategaeth hon yn cydnabod yr angen i ddatblygu a dysgu ar sail tystiolaeth. Wrth i safonau newydd sy'n hwb i reoli heintiau gael eu datblygu, bydd y Bwrdd Cyngori ar Safonau Gofal Iechyd yn cael eu mabwysiadu a'u cymeradwyo ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan NPHS i gyd-fynd â'r strategaeth hon.

Y Safonau Cenedlaethol: camau gweithredu

Camau gweithredu'r Ymddiriedolaethau:

- 2 (i) Bydd yr Ymddiriedolaethau'n cydymffurfio â'r safonau rheoli heintiau presennol. Wrth wneud hyn, bydd yr Ymddiriedolaethau yn ystyried:
- Swyddogaeth y cyfarwyddiaethau clinigol o fewn y fframwaith atebolrwydd
 - Cyfuno'r rhaglenni gwylidwriaeth cenedlaethol yn ffurfiol
 - Cyfuno mesurau canlyniadau o fewn y dangosyddion perfformiad
 - Y posibilrwydd o ehangu'r prosesau archwilio allanol i ategu'r trefniadau archwiliomewnol.

Camau gweithredu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

- 2 (ii) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i addasu safonau Cronfa Risg Cymru ar reoli heintiau i gynnwys elfennau diweddaraf y strategaeth rheoli heintiau ac i ddatblygu ystiolaeth.

Camau gweithredu Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau:

- 2(iii) Archwilio'r cyfleoedd i adeiladu ar y Safonau Glendid Cenedlaethol newydd ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu argymhellion pellach sy'n hwb i'r gwaitho reoli heintiau.

Pennod tri Seilwaith a sefydliad

Cyfrifoldebau staff y GIG

3.1 Yr her allweddol o ran atal HAI yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i leihau'r perygl o effeithio'n andwyol ar gleifion wrth ddod i gysylltiad â nhw. Mae strategaeth GIG Cymru, *Gwella lechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid* yn pwysleisio'r angen i gael awyrgylch o reoli sy'n pwysleisio pa mor hollbwysig yw rhoi gofal i gleifion mewn amgylchedd diogel ynghyd â chyfrifoldeb personol pob aelod o'r staff. Prif nod y strategaeth yw cyflwyno diwylliant glendid ar draws yr holl system gofal iechyd, a sicrhau bod materion hylendid a rheoli heintiau wrth wraidd agenda rheoli ac atebolrwydd y staff i gyd. Ar lefel genedlaethol, mae Rheolwyr Gweithredol y GIG a Phwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau wedi cefnogi'r amcanion hyn i'r carn. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2000) hefyd wedi pwysleisio'r angen i drin a thrafod yn llawn gyda Byrddau Ymddiriedolaethau a Phrif Weithredwyr y GIG. Mae archwiliadau Cronfa Risg Cymru yn trafod hyn. Mae angen rhoi systemau ar waith i sicrhau bod y fath ymrwymiad o'r brig yn ehangu ymysg ymarferwyr y rheng flaen.

Atebolrwydd rheolwyr pwyntiau gweithredu

3.2 Mae'r adroddiad *Gwella lechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid*, ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *The Management and Control of Hospital Acquired Infection in Acute NHS Trusts in England*, ill dau'n rhagweld y caiff trefniadau ar gyfer rheoli heintiau eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn sicrhau bod yr holl staff yn mabwysiadu'r agenda rheoli heintiau ac yn ei datblygu. Mae'r Strategaeth hon yn atgyfnerthu'r canllawiau sydd eisoes ar gael yn y maes trwy fynnu bod cyfarwyddiaethau clinigol yn mabwysiadu'n ffurfiol y syniad o fod yn atebol am reoli heintiau ac arferion hylendid staff eu hunedau. Mae sawl un o Ymddiriedolaethau Cymru eisoes wedi dilyn hyn, ac mae Atodiad A yn dangos y strategaeth rheoli heintiau a ddatblygwyd gan un ohonynt.

Atebolrwydd rheolwyr: camau gweithredu

Camau gweithredu'r Ymddiriedolaethau:

- 3(i) Dylai Ymddiriedolaethau adolygu'r trefniadau rheoli i sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir wedi'u sefydlu.
- 3(ii) Dylai timau rheoli cyfarwyddiaeth pob Ymddiriedolaeth benodi rhywun i fod yn atebol yn ffurfiol am arferion rheoli heintiau. Dylai ymddiriedolaethau gydnabod dyletswyddau pob cyfarwyddiaeth – clinigol ac anghlinigol. Dylai'r sawl a benodir ddod yn aelod craidd o bwyllgor yr Ymddiriedolaeth ar reoli heintiau.
- 3(iii) Dylai pob cyfarwyddiaeth weithio gydag arbenigwyr Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaeth i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eu maes gwaith a chyfraniad y cyfarwyddiaeth at raglen rheoli heintiau'r Ymddiriedolaeth-gyfan.

3.3 Trwy ddefnyddio'r dulliau uchod, y gobaith yw y bydd GIG Cymru yn defnyddio'r 'cerdyn sgorio cytbwys' i reoli heintiau, sef dull sy'n cwmpasu delfryd, safonau, meincnodau, cadw gwyliadwriaeth a chynlluniau gweithredu strategol. Bydd NHSD, Ymddiriedolaethau, cyfarwyddiaethau ac unigolion yn gweithio mewn partneriaethau i wneud hyn.

Cymorth arbenigol i reoli heintiau

- 3.4 Mae cnewyllyn o feddygon a nyrsys rheoli heintiau yn rhoi cyngor arbenigol ac arweiniad, yn rheoli achosion, creu polisiau, ac addysg a sgiliau epidemiolegol sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau ym mhob un o Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Microbiolegwyr meddygol ymgynghorol yw'r meddygon rheoli heintiau, sy'n gallu treulio cyfran amrywiol o'u hamser gwaith yn y maes hwn. Mae'r nyrsys Rheoli Heintiau fel arfer yn cael eu cyflogi ar ddyletswyddau rheoli heintiau. Does dim canllawiau yn y DU ynglŷn â staff arbenigol yn rheoli heintiau. Mae data o'r Unol Daleithiau yn awgrymu bod o leiaf un nyrs rheoli heintiau fesul 250 o welyau (Haley et al, 1985). Mae Atodiad B yn nodi dosbarthiad y nyrsys rheoli heintiau yn ysbytai Cymru yn 2001. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y gwelyau di-aciwt sydd dan law nyrsys rheoli heintiau mewn sawl Ymddiriedolaeth. Mae nifer y nyrsys rheoli heintiau wedi cynyddu rhywfaint yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Er hynny, mae'r pwysau gwaith hefyd wedi cynyddu yn dilyn yr holl sylw cynyddol gan y cyhoedd a gwleidyddion ar heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai, a'r ffaith bod gan *Staphylococcus aureus* ymwrthedd i methisilin a micro-organebau ymwrthedd i gwrthfotig yn lledu. Mae'r cynnydd mewn cleifion, rhagor o welyau llawn, prinder staff, datblygu systemau archwilio a gwyliadwriaeth well, a'r gofynion cynyddol i hyfforddi staff ym maes rheoli heintiau, oll wedi ychwanegu at y baich. Mae gan Goleg Brenhinol y Patholegwyr ganllawiau ynghylch faint o amser ddylai meddygon rheoli heintiau ei dreulio yn trin heintiau. Nid yw'n debygol bod llawer o'r Ymddiriedolaethau yn bodloni'r argymhellion hyn. Bydd rhaid i'r Ymddiriedolaethau hefyd fynd i'r afael â sgiliau amrywiol gorau posib y timau rheoli heintiau fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau i'r eithaf. Yn ogystal â chyfraniad meddygon a nyrsys mewn timau rheoli heintiau, mae cefnogi rhaglen rheoli heintiau gynhwysfawr yn llawn yn gallu golygu defnyddio dull amlddisgyblaethol sy'n gallu defnyddio sgiliau gwyddonol, epidemiolegol, yn ogystal â sgiliau trin data.
- 3.5 Mae problemau eraill sy'n ymwneud â gwaith y Timau Rheoli Heintiau wedi dod i sylw'r Is-grŵp Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAISG). Yn 2001, nid oedd gan 42 y cant o nyrsys rheoli heintiau gymorth clerigol, roedd trefniadau ar ddyletswydd yn amrywio a'r trefniadau ad-dalu yn aml yn annigonol, ac nid oedd digon o ymgynghori â thimau rheoli heintiau ar faterion yr ystadau. Er hynny, y broblem ganolog i'r timau rheoli heintiau yw cael staff clinigol i gyfrannu ac ymrwymo'n llawn i'r syniad o lynu at arferion rheoli heintiau.

Cymorth arbenigol i reoli heintiau: camau gweithredu

Camau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- 3 (iv) Bydd adolygiad cyfredol y Pwyllgor Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy o'r adnoddau sydd ar gael i reoli clefydau trosglwyddadwy yng Nghymru yn nodi arferion da ac yn cyflwyno'r argymhellion diweddaraf ar faterion staffio ac adnoddau i'w hystyried gan Brif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau.

Camau gweithredu'r Ymddiriedolaeth:

- 3(v) Dylai aelod o staff y gyfarwyddiaeth a benodwyd i fod yn atebol am arferion rheoli heintiau fod yn aelod craidd o bwllgor rheoli heintiau'r Ymddiriedolaeth.

Cymorth epidemiolegol arbenigol

3.6 Mae epidemioleg ysbyty yn golygu astudio'r hyn sy'n achosi ac yn lledu heintiau mewn cleifion ysbytai, a chymhwyso'r astudiaeth hon i'r gwaith o atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai. Mae gan epidemiolegwyr ymgynghorol a gwyddonwyr clinigol yn y Ganolfan Cadw Goruchwyliaeth ar Glefydau Trosglwyddadwy ddealltwriaeth drylwyr o'r ystadegau, epidemioleg a'r dulliau ymchwil y gellir eu defnyddio i archwilio a rheoli'r achosion a'r clwstwr o heintiau mewn ysbytai. Mae Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy sy'n gweithio fel rhan o dimau diogelu iechyd lleol hefyd yn rhannu'r un arbenigedd tebyg. Ar hyn o bryd, maen nhw'n defnyddio'r sgiliau hyn i ddehongli data cadw gwyliadwriaeth arferol. Nid cadw gwyliadwriaeth yw'r unig ateb fodd bynnag, ond yn hytrach mecanwaith i gyflwyno gwybodaeth i weithredu. Efallai bydd timau rheoli heintiau Ymddiriedolaethau eisiau rhagor o gymorth epidemioleg arbenigol i archwilio a nodi achosion unrhyw gasgliadau niweidiol a ddaw o'r broses cadw gwyliadwriaeth. Mae arbenigwyr epidemiolegol hefyd yn gallu helpu i gynllunio a gwerthuso ymyriadau sy'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai.

Cymorth epidemiolegol arbenigol: camau gweithredu

Camau gweithredu NPHS (Cymru):

- 3(vi) Bydd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn sicrhau bod arbenigwyr epidemioleg ar gael yn y Ganolfan Cadw Gwyliadwriaeth ar Glefydau Trosglwyddadwy i helpu gwasanaethau lleol.

Cyfleusterau

3.7 Mae angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion ystadau a pheirianeg er mwyn cael systemau effeithiol i reoli heintiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Amgylchedd glân;
- Cyflenwadau dŵr a systemau oeri diogel;
- Theatrau llawdriniaethau gyda systemau awyr glân priodol;
- Offer i sterileiddio a diheintio;
- Cyfleusterau ynysu gyda system awyriad pwysedd negyddol effeithiol.

3.8 Yn ôl adroddiad Pwyllgor Dethol Tŵ'r Arglwyddi (Pwyllgor Dethol Tŵ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg, 1998): 'Mae ynysu cleifion yn fodd drud ond effeithiol o reoli heintiau.' Efallai bod modd nyrsio cleifion dan amodau ynysig os oes ganddynt glefyd neu gyflwr a allai ledu, neu os ydynt mewn cryn berygl o gael eu heintio oherwydd eu cyflwr neu therapi gwreiddiol. Efallai bydd angen ynysu cleifion wedi'u heintio wrth eu derbyn i'r ysbyty, ynghyd â rhai sy'n cael eu heintio yn ystod eu harhosiad yno. Nod y math cyntaf, sef ynysu amddiffynnol, yw cadw cleifion â system imiwnedd isel rhag micro-organebau pobl eraill neu'r amgylchedd. Nod yr ail fath, ynysu'r tarddiad, yw atal cleifion wedi'u heintio neu eu coloneiddio rhag lledu pathogenau neu organebau ymwrthedd i gleifion eraill. Oherwydd pryderon ynglŷn â'r darpariaethau ynysu tarddiad yng Nghymru, ynghyd â gallu'r systemau awyriad pwysedd negyddol i dderbyn llawer o gleifion, aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i gynnal arolwg o'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd. Roedd yr arolwg yn dangos bod prinder lleoedd ag awyriad pwysedd negyddol difrifol. Mae'r holl waith cynllunio a pharatoi diweddar yng Nghymru yn sgîl peryglon fel TB sy'n gallu gwrthsefyll sawl cyffur, SARS a bio-derfysgwyr, wedi pwysleisio'r diffygion hyn.

Cyfleusterau: camau gweithredu

Camau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru:

3(vii) Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthuso canlyniadau arolwg o'r cyfleusterau ynysu yng Nghymru, ac yn rhoi arweiniad o'r lleoedd sydd eu hangen, gan ystyried yr angen am fuddsoddiad cyfalaf yn sgîl cynllunio pellach.

Camau gweithredu'r Ymddiriedolaethau:

3 (viii) Bydd angen i Ymddiriedolaethau ddarparu rhagor o gyfleusterau ynysu penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Pennod pedwar Addysg a hyfforddiant

- 4.1 Mae'r strategaeth hon yn rhoi cryn bwyslais ar yr angen i'r holl weithwyr gofal iechyd ddeall a chyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran rheoli heintiau o fewn y fframwaith llywodraethu clinigol a rheoli risg. Mae hefyd yn disgwyl i'r timau clinigol fynd i'r afael â'u problemau eu hunain, gydag arweiniad a chymorth ymarferwyr arbenigol ar reoli heintiau. Cafodd hyn ei nodi'n bendant yn y ddogfen *Gwella lechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid* ac yn ôl dogfen y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *The Management and Control of Hospital Acquired Infection in Acute NHS Trusts in England* a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000. Mae cael cynlluniau hyfforddiant effeithiol i gefnogi'r amcanion hyn yn hollbwysig os yw'r maes hwn i lwyddo.
- 4.2 Pwysleisiodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2000) nifer o broblemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni addysg a hyfforddiant. Maent yn cynnwys:
- Prinder cyfleoedd i fanteisio ar raglenni hyfforddiant i hybu'r dysgu;
 - Hyfforddiant ymsefydlu i bob grŵp staff yn anghyflawn, yn enwedig o ran uwch feddygon, glanhawyr, staff sy'n trin bwyd, myfyrwyr nyrsio a myfyrwyr meddygol;
 - Dim digon o staff yn mynychu'r cyrsiau diweddarau blynyddol;
 - Prinder archwiliadau i weld pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant.
- 4.3 Nid yw hi'n glir a oes problemau o'r fath hon yng Nghymru; er hynny, mae tystiolaeth ls-grŵp Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal lechyd Cymru yn awgrymu mai felly mae hi. Mae'r anawsterau sy'n wynebu Timau Rheoli Heintiau o ran cynnwys llawer o staff Ymddiriedolaethau wedi dod i'r amlwg. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ddatblygu arbenigedd rheoli heintiau ymysg staff mwy amrywiol ynghyd â rhoi cyfrifoldebau i'r wardiau a'r cyfarwyddiaethau am faterion hyfforddiant mewn swydd a chyfarwyddiadau.
- 4.4 Nodwyd hefyd bod diffygion wrth ddarparu hyfforddiant arbenigol ym maes rheoliheintiau. Mae potensial i ddatblygu rhaglenni arbenigol yng Nghymru. Mae prinder dybryd o hyfforddiant mewn epidemioleg ysbyty ledled y DU. Mae gan Gymru'r adnoddau proffesiynol i lenwi'r bwlch hwn.

Addysg a Hyfforddiant: camau gweithredu

Camau gweithredu WHAISG

- 4 (i) Bydd adolygiad Canolfan lechyd Cymru o'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn cael ei ystyried ym mis Mehefin 2004.
- 4 (ii) Bydd rhaglen hyfforddiant newydd yn cael ei datblygu a rhagor o wybodaeth fanylach yn cael eu hanfon i'r Ymddiriedolaethau, i nodi cyflwyno'r rhaglenni hyfforddiant, erbyn 2006.

Pennod pump Archwilio a chadw gwyliadwriaeth

Pwysigrwydd archwilio a chadw gwyliadwriaeth i reoli heintiau

5.1 Roedd *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid* yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth dda i gynllunio'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth, gwerthuso cynnydd a dangos gwelliannau. Mae cadw gwyliadwriaeth yn rhan allweddol o reoli heintiau gan ei fod yn cyflwyno gwybodaeth sy'n pwysleisio amcanion strategol ynghyd â llywio blaenoriaethau a chanolbwynt gwaith beunyddiol. Mae defnyddio dulliau safonol i fesur y cyfraddau heintiau lleol dros amser yn fodd o gymharu â data cenedlaethol a rhyngwladol, ac fe fydd yn hwyluso'r canlynol:

- Nodi'r achosion neu'r clystyrau o heintiau;
- Deall perfformiad perthynol Ymddiriedolaeth;
- Pennu blaenoriaethau;
- Targedu'r mesurau rheoli priodol;
- Monitro canlyniadau ymyriadau.

Mae cyfuno rhaglen cadw gwyliadwriaeth effeithiol a rhoi adborth rheolaidd o'r canlyniadau i staff clinigol wedi cyfrannu at leihau'r achosion o heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai (Haley et al, 1985). Mae Cronfa Risg Cymru yn cydnabod ac yn mynnu bod rhaglenni cadw gwyliadwriaeth ar waith gan ddefnyddio'r dulliau a ddiffiniwyd.

5.2 I gyflawni'r uchod, mae'n rhaid i'r broses cadw gwyliadwriaeth fod mewn trefn arbennig, gyda ddiffiniadau cytûn, dulliau casglu data cyson a dadansoddiad ystadegol priodol i fod yn sail i'r casgliadau. Mae'n hanfodol bwysig bod y staff clinigol yn cael adborth rheolaidd ac amserol.

5.3 Yn lleol, Timau Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaethau a'r cyfarwyddiaethau clinigol fydd yn gyfrifol am roi'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth ar waith, gan gydweithio'n agos â'r staff eraill. Dylai Ymddiriedolaethau sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth. Mae staff addas a rheoli da yn arbennig o bwysig hefyd.

5.4 Yn genedlaethol, bydd tîm prosiect Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru

- Yn hwyluso a chydgyssylltu'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth lleol mewn Ymddiriedolaethau;
- Yn casglu data ar lefel genedlaethol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Yn paratoi adroddiadau cenedlaethol;
- Yn helpu i ledu arferion da.

5.5 1996, cafodd prosiect i archwilio heintiau mewn ysbytai ei sefydlu yng Nghymru, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gymreig. Yr amcanion oedd

- Nodi baich heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru;
- Disgrifio ac esbonio'r amrywiaethau mewn heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai dros amser, a fesul ysbyty ac arbenigedd;
- Datblygu system i adrodd am achosion mewn ysbyty, gyda mecanwaith i rannu gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd ac arferion da;
- Datblygu system cadw gwyliadwriaeth glinigol effeithiol i gael data am gleifion sy'n cael eu heintio ar ôl gadael yr ysbyty;

- Datblygu system archwilio i nodi ffactorau y gellid eu hatal, a chynnal archwiliad sylwadol sy'n cydymffurfio ag arferion da;
- Pennu'r ffactorau risg o ddal heintiau, a chanlyniad coloneiddio yn ôl gwahanol fathau o MRSA.

- 5.6 Mae llawer o waith y prosiect wedi'i neilltuo i sefydlu dulliau cadarn o gadw gwyliadwriaeth er mwyn cael gwared ar heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai yng Nghymru. Mae cynlluniau cadw gwyliadwriaeth am organebau ysbytai a heintiau clinigol wedi'u datblygu, gyda'r Ymddiriedolaethau yn eu mabwysiadu'n wirfoddol. Mae gwybodaeth o'r cynlluniau hyn wedi profi'n llwyddiannus iawn wrth gadw golwg ar heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai, a nodi'r meysydd sy'n achosi pryder. (Gweler Atodiad C: Adrodd am MRSA trwy CoSurv ac Atodiad Ch: Adrodd am Achosion mewn Ysbytai.)
- 5.7 Mae'r dull hwn o gadw gwyliadwriaeth ar safleoedd ysbytai wedi'i ddatblygu ledled y DU. Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd wedi derbyn y dull hwn fel rhan o raglen cadw gwyliadwriaeth sy'n cynnwys 22 o wledydd o 2004. Bydd y ddata sy'n cael ei gasglu hefyd yn cydweddu â'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth yn UDA a gwledydd eraill y tu allan i'r UE.
- 5.8 Cafodd y rhaglen cadw gwyliadwriaeth orfodol gyntaf ei chyflwyno yng Nghymru yn 2001. Roedd hyn yn canolbwyntio ar facteria *Staphylococcus aureus*. Mae achosion o gleifion, wedi'u cadarnhau gan y labordai, yn dod i'r amlwg bob chwarter o bob Ymddiriedolaeth aciwt yng Nghymru. Roedd hyn yn cyd-fynd â datblygiadau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yng Nghymru, cynyddodd nifer yr eitemau data a gasglwyd ar ôl y chwe mis cyntaf o gadw gwyliadwriaeth, er mwyn cyfri'r cyfraddau arbenigol o factaeremia *Staphylococcus aureus* a nodi'r heintiau sy'n gysylltiedig. Mae hyn wedi sicrhau bod modd tynnu sylw at y meysydd problematig hynny a'u targedu ar gyfer mesurau rheoli (Gweler Atodiad D). Bydd rhaglenni cadw gwyliadwriaeth gorfodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer organebau a chyflyrau eraill.

Cadw gwyliadwriaeth: camau gweithredu

Camau gweithredu Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau ac Ymgynghorwyr mewn Rheoli Heintiau:

- 5(i) Bydd Ymddiriedolaethau yn cynnal rhaglenni cadw gwyliadwriaeth cenedlaethol wrth iddynt gael eu datblygu a'u haddasu. Bydd y rhaglen hon yn datblygu ac yn cyflwyno portffolio cynhwysfawr o offer cadw gwyliadwriaeth fel bod modd cymharu â sefydliadau gofal iechyd eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys:
- Ehangu'r cynllun cadw gwyliadwriaeth ar safleoedd llawfeddygol i feysydd arbenigol eraill;
 - Heintiau mewn ITU: cynllun peilot yn 2004;
 - Heintiau a gadarnhawyd gan labordai yn sgîl *Clostridium difficile*. I'w gyflwyno fel rhaglen barhaus, orfodol, yn 2004.

Archwilio

5.9 Mae archwilio clinigol yn darparu dull pwysig o fonitro'r polisiau sy'n cael eu rhoi ar waith a'r perfformiad gweithredol. Mae hefyd yn gallu rhoi cipolwg ar y problemau a ddaw i'r amlwg yn sgîl cadw gwyliadwriaeth. Yn ôl arolwg yn 2001, cynhaliodd 83 y cant o dimau rheoli heintiau arolwg mewn meysydd clinigol. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys ymarferion a oedd yn bwrw golwg ar lendid amgylcheddol, golchi dwylo neuwybodaeth pobl am bolisiau. Mae Safonau Cronfa Risg Cymru yn mynnu bod pob Ymddiriedolaeth yn cynnal rhaglen archwilio mewnol o bolisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau bob blwyddyn. Bydd y syniad o gyflwyno archwiliad allanol nawr yn cael ei ystyried.

Archwilio: camau gweithredu

Camau gweithredu Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth

- 5(ii) Yr Ymddiriedolaethau i sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnwys fel rhan o raglen archwilio clinigol Ymddiriedolaeth-gyfan. (Bydd yr offer archwilio cenedlaethol yn cael eu mabwysiadu gyda chytundeb Bwrdd Rheoli'r GIG/Cymdeithas Genedlaethol y Prif Weithredwyr).
- 5(iii) Bydd dull archwilio'r DU – a gomisiynwyd gan Adran Iechyd San Steffan ac sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Gymdeithas y Nyrsys sy'n Rheoli Heintiau a'r rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn cael ei roi ar brawf gyda'r nod o'i fabwysiadu'n genedlaethol. Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau i fynegi diddordeb mewn rhoi'r dull archwilio ar brawf erbyn 29 Ionawr 2005.

Pennod chwech Ymyriadau a dangosyddion perfformiad

6.1 Mae *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid* yn dweud bod rheoli perfformiad effeithiol yn hollbwysig i sefydliad llwyddiannus ac yn arbennig o bwysig ar adeg lle mae cymaint o ofynion arno. Mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol, staff ategol, rheolwyr a'r cyhoedd wybod sut maen nhw'n cyflawni yn erbyn cyfres o amcanion y cytunwyd arnynt. Mae egwyddorion a nodir yn y ddogfen ar y dulliau rheoli perfformiad i'w rhoi ar waith a'u cynnal yn arbennig o berthnasol wrth reoli heintiau, hynny yw, arweiniad da ar bob lefel, a phrosesau wedi'u seilio ar y pum cam sylfaenol canlynol:

- Dyheadau amlwg;
- Cyfres o amcanion, mesurau a thargedau cydlynus i fonitro cynnydd wrth wireddu'r dyheadau hyn;
- Perchnogaeth ac atebolrwydd i sicrhau bod yr unigolion mwyaf addas i gyflawni'r gwaith, yn gwneud hynny;
- Adolygu'r perfformiad yn fanwl i sicrhau bod pobl yn gwella'u perfformiad yn barhaol yn unol â'r disgwyliadau;
- Cadarnhau'r negeseuon i ysgogi unigolion i gyflawni'r perfformiad targed.

6.2 Mae'r egwyddorion hyn wedi dylanwadu'n gryf ar y strategaeth hon, sy'n cynnig mai sicrhau lleihad mesuradwy mewn heintiau a ddylai gael y flaenoriaeth. Mae'n cydnabod mai'r unig ffordd o gyflawni hyn yw os bydd yr holl weithwyr iechyd yn cyfrannu at y broses. Rhaid gwneud hyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad cryf, gyda'r mecanweithiau ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses.

Ymyriadau a dangosyddion perfformiad

6.3 Mae Safonau Cronfa Risg Cymru yn mynnu bod Ymddiriedolaethau yn nodi'r prif ddangosyddion sy'n gallu dangos gwelliannau o ran rheoli heintiau a/neu roi rhybudd cynnar am risg. Gall nifer o ddangosyddion proses gwahanol fod o fudd yn y cyd-destun hwn:

- Canran y staff sydd wedi'u hyfforddi i reoli heintiau;
- Y cynnydd yn erbyn archwiliad rheoli heintiau;
- Y cynnydd yn erbyn rhaglen a gynlluniwyd i reoli heintiau.

6.4 Er hynny, argymhellir yn gryf y dylid defnyddio mesurau canlyniadau fel dangosyddion perfformiad. Gallai'r rhain gynnwys:

- Nifer a graddfa'r achosion o reoli heintiau a nodwyd;
- Cyfradd yr heintiau sy'n gysylltiedig ag ysbytai.

6.5 Yn anffodus, mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chyfraddau'r heintiau a ragwelir mewn ysbyty sy'n llwyddo i reoli ei ddulliau rheoli heintiau yn effeithiol, yn ddiffygiol, a'r targedau a fyddai wedi'u gosod o ran y canlyniadau yn rhai rhagdybiaethol. O'r herwydd, mae Cylchlythyr Iechyd Cymru (2003) 43 yn ceisio hwyluso'r gwaith o ddatblygu dangosyddion perfformiad canlyniadau i'w cymhwyso'n gyffredinol at ddibenion meincnodi a monitro yn genedlaethol. Mae'n gwneud hyn trwy:

- Ddefnyddio dangosyddion perfformiad sy'n ceisio lleihau heintiau;
- Darparu digon o hyblygrwydd fel bo'r Ymddiriedolaethau yn gallu nodi eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gweithredu (gweler Atodiad Dd fel enghraifft o hyn);
- Defnyddio dulliau cadw gwyliadwriaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i fod o gymorth wrth ddehongli a sicrhau bod modd cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd, a'r arferion da a nodwyd, yn eang.

Ymyriadau a dangosyddion perfformiad: camau gweithredu

Camau gweithredu Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaeth:

6(i) Yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru 2003(43), sicrhau bod pob Ymddiriedolaeth yn cofrestru'n flynyddol gyda thîm prosiect Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a'r targedau blaenoriaethau lleol i leihau heintiau mesuradwy.

Camau gweithredu WHAISG:

6(ii) gan Is-grŵp Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHASG).

Pennod saith Technoleg gwybodaeth A chyfathrebu

7.1 Roedd adroddiad diweddar *Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) yn pwysleisio'r prinder technoleg gwybodaeth sydd ar gael i GIG Cymru, ac yn argymhell rhaglen hirdymor ar gyfer technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, gan roi blaenoriaeth ar ragor o fuddsoddiad. Mae cymorth da i Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IM&T) yn hollbwysig er mwyn gweithio'n effeithlon i reoli heintiau, yn enwedig o ran:

- Casglu, cofnodi, dadansoddi a dosbarthu data i gadw gwyliadwriaeth;
- Cyfle gwell i gael gafael ar wybodaeth glinigol;
- Cadw llygad ar hynt a helynt cleifion;
- Asesu effaith gwaith staff ar ganlyniadau heintiau;
- Dulliau o fesur y gwaith o reoli heintiau;
- Monitro canlyniadau microbiolegol, ymwrthedd gwrthfotig a rhagnodi;
- Hwyluso cysylltiadau a sicrhau bod polisïau, canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael;
- Manteisio ar gyngor arbenigol.

Bydd y gwaith o reoli heintiau mewn ysbytai yn gwella'n sylweddol os bydd buddsoddiadau'r dyfodol mewn seilwaith IMT yn arwain at fwy o allu yn y meysydd hyn. Mae'n rhaid i hyn ystyried y systemau arbenigol ar gyfer rheoli heintiau.

Cyfathrebu

7.2 Mae angen cyflwyno gwelliannau mawr i systemau clinigol, diagnostig, fferyllol, gweinyddol a rheoli'r Ymddiriedolaeth er mwyn cael y gorau o ran atal a rheoli heintiau. Yn genedlaethol, mae systemau IMT wedi'u datblygu i gynorthwyo gyda TGCh, cadw cofnodion a chadw gwyliadwriaeth: InControl (sydd bellach wedi'i ddatblygu fel cynnyrch masnachol, ICNet). Mae cynnyrch arall, DataStore, wedi'i ddatblygu yng Nghymru. Mae'n cael ei ddefnyddio mewn labordai NPHS ac yn cael ei osod yn adrannau'r GIG. Bydd DataStore yn helpu labordai i gyflwyno adroddiadau at ddibenion cadw gwyliadwriaeth a gwella gallu'r labordai i gael gafael ar eu data, a'u dadansoddi. Cafodd gwefan Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru ei sefydlu i rannu a chyfnewid gwybodaeth, diolch i arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y wefan hon yn cyd-fynd â'r strategaeth, a bydd modd ei chyrchu trwy gyfrwng gwefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

7.3 Mae angen hyfforddiant mewn sgiliau TGCh i feithrin arbenigedd yn y maes er mwyn defnyddio'r systemau IMT yn llawn.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: camau gweithredu

Camau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ymddiriedolaethau:

7 (i) Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ymddiriedolaethau GIG yn ystyried anghenion rheoli heintiau wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni IMT yn y dyfodol.

Camau gweithredu'r ymddiriedolaethau:

7(ii) Bydd yr Ymddiriedolaethau yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i roi offer a med dalwedd TG arbenigol i'r adrannau TGCh.

Camau gweithredu NPHS (Cymru):

7(iii) Bydd gwefan Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru yn cael ei datblygu fel prif gyfrwng cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y manylion diweddaraf am ddatblygiadau strategol.

7(iv) Bydd tîm prosiect WHAISG yn datblygu DataStore ymhellach i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd adroddiadau'r labordai i ddibenion cadw gwyliadwriaeth.

7(v) Bydd adolygiad WHAISG o'r maes hyfforddiant yn cynnwys gofynion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

Rhan pedwar

Llyfryddiaeth

Haley R.W., White J.W., Culver D.H., Meade Morgan W., Emori T.G., Munn V.P. et al. The efficacy of infection surveillance and central programs in preventing nosocomial infections in US hospitals (SENIC). *American Journal of Epidemiology*;121:182-205, 1985.

Yr Adran Iechyd (1995).

Hospital infection control: guidance on the control of infection in hospitals. HSG(95)10. Llundain: Yr Adran Iechyd.

Y Llyfrfa (1998).

Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg.

Resistance to antibiotics, and other antimicrobial agents. Llundain: Y Llyfrfa.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001).

Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid, Caerdydd. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. The management and control of hospital acquired infection in acute NHS trusts in England. Llundain: Y Llyfrfa; 2000

Plowman R., Craves N., Griffin M., Roberts J., Swan A., Cookson B., Taylor L. The socio economic burden of hospital acquired infection. Llundain: Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus, 2000.

Risk Management and Organisational Control WHC (2000) 13.

Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad y Tîm Prosiect, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.

Diweddariad: Severe Acute Respiratory Syndrome - Toronto, Canada, 2003, Morbidity and Mortality Weekly Reports, Mehefin 13, 52(23);547-550, 2003.

Rhan pump

Atodiadau

Atodiad A

Strategaeth Rheoli Heintiau: Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda.

Gweledigaeth

Gweithredu mesurau a phrosesau i'n galluogi ni i barhau i leihau'r perygl o heintiau mewn ysbytai.

Targedau

1. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiwylliant sy'n cydnabod bod rheoli heintiau yn gyfrifoldeb i bawb.
2. Mae'r gwaith o sicrhau bod heintiau yn cael ei reoli'n effeithiol ac effeithlon yn cael ei gynllunio'n strategol.
3. Mae lleihau heintiau yn rhan allweddol o gynllun gweithredu rheoli risg y Cyfarwyddiaeth a strategaeth rheoli risg yr Ymddiriedolaeth gyfan.
4. Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau yn glir.
5. Caiff arferion da eu hyrwyddo ledled yr Ymddiriedolaeth trwy ddeall egwyddorion rheoli heintiau yn well.
6. Mae yna gyfleoedd addysg a hyfforddiant priodol ac angenrheidiol ar gael mewn perthynas â rheoli heintiau.
7. Cyflwynir dogfennau gweithdrefnau unigol pob Cyfarwyddiaeth sy'n seiliedig ar gyfres o egwyddorion corfforaethol sylfaenol.
8. Mae'r achosion o heintiau sy'n bosib eu hatal wedi gostwng.
9. Cymerir y camau angenrheidiol i atal lledaeniad yr epidemig MRSA sy'n lleihau nifer y cleifion sydd wedi'u heffeithio gan MRSA heb amharu'n sylweddol ar weithgarwch arferol yr ysbytai a heb gyfaddawdu hawl cleifion i gael y gofal clinigol sydd ei angen arnynt.
10. Mae set o ddangosyddion perfformiad wedi'u cytuno ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth ac mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fonitro a'i werthuso.

Atodiad B


Nifer y gwelyau aciwt sy'n cael eu nyrsio gan Nyrsys Rheoli Heintiau (ICN) mewn Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae nifer amrywiol o welyau di-aciwt wedi'u cynnwys hefyd. (2003).

Ymddiriedolaeth	Gwelyau aciwt	ICN	Gwelyau aciwt/ICN
1	1783	5	357
2	1398	10	140
3	531	2	266
4	625	3	208
5	195	1	195
6	595	3	198
7	1343	3	447
8	65	2	33
9	846	2	423
10	635	4	159
11	300	2	150
12	436	2	218
13	621	3	207

Atodiad C

Adrodd am MRSA trwy CoSurv

Er 1993, mae data ar *Staphylococcus aureus* o brofion ar waed a CSF wedi'u casglu trwy CoSurv, yn cynnwys tueddiad methisilin. Ym 1996, ehangwyd y gwaith gwyliadwriaeth i bob MRSA newydd, sy'n gysylltiedig â choloneiddio a heintiau, o ysbytai a lleoliadau yn y gymuned. Mae'r gwaith gwyliadwriaeth hwn wedi dangos cynnydd mewn ymwrthedd i fethisilin dros amser, yr amrywiadau yn ôl lleoliad a'r grwpiau poblogaeth yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Dangosodd data y bu cynnydd sylweddol yn yr achosion o MRSA yng Nghymru rhwng 1996 a 1998, ond bod yr achosion wedi aros yn gymharol sefydlog ers hynny. Mae data CoSurv wedi'i archwilio a'i ategu gan ddau arolwg o achosion MRSA ac arolwg o bolisiau trosglwyddo cleifion sydd ag organebau ag ymwrthedd. Mae'r arolygon hyn wedi darlunio'r broblem fesul ysbyty ac wedi ymestyn y gwaith gwyliadwriaeth i archwilio polisiau a gweithdrefnau.




Atodiad Ch

Adrodd am achosion mewn ysbytai

Datblygwyd system o adrodd am achosion mewn ysbytai ym 1997. Mae timau rheoli heintiau (ICT) yn cwblhau holiadur misol ar unrhyw achosion sydd wedi codi. Yn wreiddiol, cadwyd gwyliadwraeth trwy gyfrwng holiadur papur, ond datblygodd hyn dros amser i adrodd trwy holiadur electronig ar e-bost i dîm y prosiect a nawr i adrodd ar y we a chwilio'r gronfa ddata. Mae'r gwaith gwyliadwraeth yn nodi'r rhesymau dros yr achosion, nifer y cleifion a'r staff sy'n gysylltiedig a'r mesurau rheoli a gymerwyd, gan ddarparu adnodd gwybodaeth i ICT a modd o ddadansoddi llwyddiant gwahanol strategaethau rheoli.

Er bod tua hanner y timau rheoli heintiau yng Nghymru yn adrodd yn wirfoddol, mae data'n dangos mai gastroenteritis firysol yw'r achos mwyaf cyffredin o lawer mewn ysbytai yng Nghymru yn unig, a bod nifer yr achosion o'r organeb hon wedi cynyddu'n ddiweddar.




Atodiad D

Adrodd am heintiau mewn mannau llawfeddygol

Datblygwyd cynllun gwylidwraeth gwirfoddol ar gyfer heintiau safle llawfeddygol yn 2001. Mae'r gwaith gwylidwraeth yn cael ei wneud drwy holiaduron a gynhyrchir i'w defnyddio gyda thechnoleg darllenydd nodau optegol. Caiff yr holiaduron eu cwblhau gan staff rheoli heintiau/llawfeddygol mewn ysbytai. Mae'r gwaith dadansoddi lleol yn cael ei wneud gan gyd-gysylltydd gwylidwraeth ym mhob ysbyty, yn defnyddio cronfa ddata a ysgrifennwyd gan dîm y rhaglen. Dadansoddiad fesul haen o'r data yn seiliedig ar fynegai risg NNIS America ar gyfer heintiau yw sail yr adroddiadau yn y gronfa ddata. Mae tîm y rhaglen yn darparu dadansoddiad o Gymru gyfan.

Mae pedwar ysbyty yng Nghymru wedi bod yn rhedeg system wylidwraeth SSI wirfoddol ar gyfer triniaethau orthopaedig a thri ysbyty wedi bod yn gwneud hynny ar gyfer adrannau llawdriniaeth Cesaraidd/gynaecoleg ac obstetreg.



Atodiad Dd

Adroddiad am bacteremia staphylococcus aureus

Daeth tîm rheoli heintiau ysbyty at dîm y prosiect gan eu bod yn pryderu bod eu cyfraddau bacteremia MRSA yn gyson ymysg yr uchaf yng Nghymru. Roedd archwiliad o'u data fesul arbenigedd yn awgrymu bod eu cyfraddau ar gyfer neffroleg yn uwch nag mewn Ymddiriedolaethau eraill. Cynhaliwyd adolygiad nodiadau achos ar gleifion neffroleg gyda bacteremia MRSA dros gyfnod o flwyddyn. Canfuwyd bod pibell mewnfasgwlaidd wedi'i rhoi mewn naw o bob 11 o gleifion yn ystod y tair wythnos cyn y bacteremia positif. Roedd y gyfradd bacteremia MRSA fesul 100 o bibellau a osodwyd yn llawer uwch yn yr uned hon o gymharu ag uned debyg mewn ysbyty cyfagos. Cynhaliwyd adolygiad o bolisiau ac arferion gosod pibellau. O ganlyniad i hyn, mae cyfradd bacteremia MRSA ar gyfer neffroleg yn yr ysbyty wedi lleihau, fel mae'r gyfradd bacteremia MRSA cyffredinol.

